

# **Gosod cymal metacarpoffalangal a rhyngffalangal artiffisial ar gyfer arthritis cam olaf**

**Deall arweiniad NICE –  
gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y  
weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Gosod cymal metacarpoffalngal a rhyngffalngal artiffisial  
ar gyfer arthritis cam olaf**

**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y  
weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Chwefror 2005

**I archebu copïau**

Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0809. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0808. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE ([www.nice.org.uk/IPG110guidance](http://www.nice.org.uk/IPG110guidance)). Gellir cael copïau o Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd hefyd, rhif cyfeirnod N0807.

---

## **National Institute for Clinical Excellence**

MidCity Place  
71 High Holborn  
London  
WC1V 6NA

Gwefan: [www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)

ISBN: 1-84257-877-4

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol  
Chwefror 2005

Cysodwyd gan Icon Design, Eton  
Argraffir yn ôl y galw

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Chwefror 2005.  
Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at  
ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o  
fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau  
masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad  
Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

## Cynnwys

Ynglŷn â'r wybodaeth hon	4
Ynglŷn â gosod cymal metacarpoffalngal a rhyngffalngal artiffisial yn y bysedd	5
Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?	8
Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi	9
Gwybodaeth bellach	10

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddsbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn driniaeth gosod cymal artiffisial ar gyfer arthritis yn y bysedd na ellir ei drin fel arall (gelwir y cymalau yn y bysedd yn gymalau metacarpoffalangal a rhyngffalangal). Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw triniaeth gosod cymal artiffisial yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer arthritis gwael iawn yng nghymalau'r bysedd.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw gosod cymalau artiffisial ac o ba mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cleifion a'r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

## Ynglŷn â gosod cymal artiffisial yn y bysedd

Mae'r cymal yr effeithir arno gan arthritis yn llidiog, briwiedig a phoenus. Mae'r triniaethau ar gyfer arthritis yn y bysedd yn cynnwys meddyginiaethau gwrthlidiol, poenladdwyr a phigiadau steroid. Pan fydd yr arthritis yn ddifrifol wael, weithiau caiff y cymal ei dynnu allan. Weithiau, caiff y 'bwlch' ei lenwi gyda meinwe a gymerir o ran arall o'r corff. Fel arall, gellir cysylltu'r ddau asgwrn sydd ar ôl gyda'i gilydd drwy ddefnyddio gwifrau neu sgriwiau metel – gelwir hyn yn ymasiad cymal neu arthrodesis.

Mae'r weithdrefn yr edrychodd NICE arni, sy'n golygu tynnu'r cymal allan a rhoi un artiffisial yn ei le, yn opsiwn a gaiff ei ddefnyddio weithiau i helpu gyda'r boen pan fydd yr arthritis wedi mynd yn ddifrifol iawn.

Rhoddir anesthetig cyffredinol i'r claf fel arfer a chaiff y cyflenwad gwaed i'r fraich a'r llaw ei atal dros dro. Gwneir agoriad yn y bys yn lleoliad y cymal. Caiff y gewynnau eu symud i'r ochr gyda gofal, a chaiff y cymal arthritig ei dynnu allan. Rhoddir cymal artiffisial yn ei le. Rhoddir sblint ar y bysedd er mwyn eu cynnal a'u cadw'n llonydd tra bydd y llaw yn gwella.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn tair astudiaeth, roedd bron pob un o'r cymalau y gwnaed llawdriniaeth arnynt yn llai poenus wedyn (y ffigurau oedd 97% i 100% o gymalau).

Canfu dwy astudiaeth nad oedd pobl a gafodd gymalau artiffisial yn ei chael yn haws i symud eu dwylo. Ond canfu astudiaeth arall fod gan bron i dri chwarter o'r cymalau newydd fwy o bŵer, a bod gan dros dri chwarter o'r cymalau y gallu i wneud symudiadau bach.

Mewn un astudiaeth, dywedodd 18 allan o 19 o gleifion eu bod yn fodlon ar ganlyniadau'r weithdrefn pan ofynnwyd iddynt beth amser wedyn (ar gyfartaledd, tair blynedd ar ôl cael y llawdriniaeth). Mewn astudiaeth arall holwyd cleifion ar ôl cyfnod hwy (tua 6 blynedd), a dywedodd 27 allan o 31 o gleifion eu bod yn fodlon ar y canlyniadau.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Roedd yr arbenigwyr yn pryderu a fyddai'r canlyniadau cystal dros gyfnod hwy o amser â chanlyniadau'r llawdriniaeth lle caiff y cymal ei dynnu allan a'r esgyrn eu cysylltu â phinnau (ymasiad cymal).

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Edrychwyd ar ganlyniadau dros 15,000 o driniaethau gosod cymalau. Y problemau mwyaf cyffredin oedd newidiadau yn yr esgyrn sy'n amgylchynu'r cymal artiffisial. Er enghraifft, mewn rhai pobl, ffurfiodd systiau ar yr asgwrn, ac mewn pobl eraill, dechreuodd yr asgwrn dreulio. Digwyddodd y mathau hyn o broblemau mewn 577 o gymalau allan o 15,556 y gwnaed llawdriniaeth arnynt. Problem gymharol gyffredin arall oedd bod y cymal artiffisial yn torri – digwyddodd hyn mewn 352 o gymalau. Daeth y cymal yn rhydd mewn 114 o gymalau artiffisial, a chafodd 86 o gymylau y gwnaed llawdriniaeth arnynt haint. O'r 15,556 o gymalau artiffisial a gafodd eu gosod, roedd yn rhaid tynnu 143 oherwydd problemau.

Mewn astudiaeth a oedd yn gwirio beth a ddigwyddodd i gleifion ymhen 3 blynedd ar gyfartaledd ar ôl y llawdriniaeth, roedd 5 allan o 69 o'r cymalau artiffisial wedi torri. Mewn astudiaeth arall a edrychodd ar bobl ymhen 6 blynedd ar gyfartaledd ar ôl y llawdriniaeth, roedd 1 allan o 31 o'r cymalau wedi torri.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod y problemau posibl ar ôl y llawdriniaeth yn cynnwys cyffni yn y cymalau, y cymal artiffisial yn llacio, problemau gyda darnau bach o'r cymal yn torri i ffwrdd, yr

asgwrn yn gwanhau, niwed i'r nerfau, chwydd llawn gwaed yn ffurfio yn y bys, llid o amgylch y bys wedi ei achosi gan y silicon yn y cymal artiffisial, haint a'r cymal artiffisial yn gwanhau'n raddol.

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar driniaeth gosod cymal artiffisial yn y bysedd. Mae wedi argymhell y dylai meddygon, pan fyddant yn defnyddio'r weithdrefn hon ar gyfer pobl sy'n dioddef o arthritid difrifol, sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Mae NICE wedi nodi bod mathau newydd o gymalau artiffisial yn cael eu datblygu. Mae wedi annog meddygon i anfon gwybodaeth am eu profiadau gyda'r math o gymal a ddefnyddir ganddynt i storfa wybodaeth ganolog fel y gall pobl weld pa mor dda y mae'r cymalau gwahanol yn gweithio dros gyfnod hir o amser.

## Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE wedi nodi y caiff triniaeth gosod cymal artiffisial ei defnyddio'n bennaf i helpu gyda phoen pan fydd gan bobl arthritid difrifol yn eu llaw.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai bod eich meddyg wedi cynnig triniaeth gosod cymal artiffisial ar gyfer eich bysedd chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau'r weithdrefn gosod cymal artiffisial cyn i chi gytuno i'w chael. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai bod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

Mae NICE hefyd wedi annog meddygon i gasglu gwybodaeth am y mathau gwahanol o gymalau a ddefnyddir. Caiff y wybodaeth hon ei chadw'n gyfrinachol ac ni fydd yn cynnwys enwau cleifion. Dim ond i weld pa mor hir y mae'r cymalau'n para a pha un a oes problemau hirdymor y defnyddir y wybodaeth. Os byddwch yn penderfynu cael cymal artiffisial, efallai y gofynnir i chi gytuno i'ch manylion gael eu cofnodi ar gronfa ddata electronig at y diben hwn. Bydd clinigydd sy'n gofalu amdanoch yn rhoi eglurhad llawn i chi am ddibenion casglu'r data a pha fanylion a gaiff eu cadw. Gofynnir i chi arwyddo ffurflen ganiatâd. Os na fyddwch yn cytuno i'ch manylion gael eu cofnodi ar gronfa ddata electronig, ni fydd hyn yn eich rhwystro rhag cael y weithdrefn.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE ([www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar driniaeth gosod cymal metacarpoffalngal a rhyngffalngal artiffisial ar gyfer arthritis cam olaf ar wefan NICE ([www.nice.org.uk/IPG110guidance](http://www.nice.org.uk/IPG110guidance)), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0807. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am arthritis, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein ([www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk)).

Dyddiad: Chwefror 2005